

CYFARWYDDYD IWAN DAVIES, PRIF WEITHREDWR CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY, O DAN Y GORCHYMYN BUDD-DAL TAI A BUDD-DAL TRETH Y CYNGOR (CYFATHREBU ELECTRONIG) 2006 AR GYFATHREBU ELECTRONIG

Yn unol â:

Atodlen 11 o'r Rheoliad Budd-dal Tai 2006,
Atodlen 10 o'r Rheoliadau Budd-dal Tai 2006 (Pobl sydd wedi cyrraedd yr oed cymwys ar gyfer credyd pensiwn y wladwriaeth)
Atodlen 12 o Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013.

Gan hynny mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("yr Awdurdod") yn gwneud y cyfarwyddiadau canlynol -

1. Mae unigolyn ("Ymgeisydd") sydd, yn unol â'r rheoliadau uchod, yn gwneud cais am Fudd-dal Tai a/neu Ostyngiad Treth y Cyngor wedi ei awdurdodi i wneud hynny drwy dull cyfathrebu electronig, cyn belled â bod yr Ymgeisydd yn defnyddio dull sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r cais.
2. Mae'r dulliau a'r ffurfiau a osodir, ar adeg, ac i bwrpas, cyflawni cais o'r fath fel y cyfeirir ato ym mharagraff 1, ar wefan yr Awdurdod, fel a ganlyn-
 - (a) Y dulliau a gymeradwyir gan yr Awdurdod ar gyfer ceisiadau electronig yw:-
 - Cyflwyno cais newydd
 - Cyflwyno cais am newid cyfeiriad
 - Dilysu'r cais a wneir
 - Dilysu hunaniaeth yr unigolyn sy'n gwneud y cais
 - Dull cyfathrebu electronig
 - (b) Y ffurflenni sy'n cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod i gyflwyno'r cais yw un ai -
 - Ceisiadau Newydd drwy ffurflen electronig yr Awdurdod sydd wedi ei chymeradwyo ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cais i gynnwys enw'r Ymgeisydd, cyfeiriad, dyddiad geni a rhif Yswiriant Cenedlaethol
 - neu
 - Newid Cyfeiriad drwy ffurflen electronig yr Awdurdod sydd wedi ei chymeradwyo ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cais i gynnwys enw'r Ymgeisydd, cyfeiriad, dyddiad geni a rhif Yswiriant Cenedlaethol
3. Dylid nodi er y gellir gwneud ceisiadau newydd a cheisiadau i newid cyfeiriad yn electronig, mae'n bosib y bydd gofyn darparu gwybodaeth bellach neu dystiolaeth gefnogi wreiddiol mewn rhai amgylchiadau. Bydd yr Ymgeisydd yn cael gwybod ar ddiwedd y broses o lunio cais arlein pa ddogfennau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn i'r cais gael ei brosesu. Gall yr Awdurdod wirio ceisiadau, gwybodaeth neu dystiolaeth drwy ddefnyddio systemau a ffynonellau gwybodaeth trydydd parti yn ogystal â thrwy gyswllt

uniongyrchol gyda pherson yn defnyddio dull cyfathrebu electronig neu drwy ryw ddull arall.

Bydd yr Ymgeisydd yn gyfrifol am ddilysrwydd a chywirdeb unrhyw ddatganiad a wneir.

4. Cyflwyno Cais

Nid cyfrifoldeb yr Awdurdod fydd unrhyw gais nad yw'n cael ei dderbyn gan system gyfrifiadurol swyddogol yr Awdurdod. Cynghorir Ymgeiswyr i gadw cofnod o unrhyw gais neu gais newid cyfeiriad sy'n cael ei gyflwyno rhag ofn y bydd ymholiad.

Mae'r Cyfarwyddyd hwn ar gyfathrebu electronig, yn galluogi'r defnydd o lofnodion electronig ar geisiadau Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth y Cyngor sy'n cael eu gwneud drwy'r ffurflen electronig sydd wedi ei chymeradwyo ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Llofnodwyd gan:



Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad: